# YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN

# PWYLLGOR BUDDSODDI A CHONTRACTAU

## Cofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 7 Tachwedd, 2012

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Mri. E.G. Davies, Aled Morris Jones, H. Eifion Jones,<br>J.V. Owen, Bob Parry OBE, G.W. Roberts OBE, Elwyn Schofield. |
| | **HSBC Global Asset Management (UK) Cyf.** |
| | Mr. Gareth Jones - Cyfarwyddwr ,Rheolwr Cyfoeth Dewisol |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Mr. R. Dylan Jones |

**1 ETHOL CADEIRYDD**

Ailetholwyd Mr. G.W. Roberts OBE yn Gadeirydd.

**2 ETHOL IS-GADEIRYDD**

Ail-etholwyd Mr. H. Eifion Jones yn Is-gadeirydd.

**3 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**4 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mai, 2012, yn amodol ar gynnwys enw Mr. Aled Morris Jones yn cael ei ychwanegu at y rhestr o ymddiheuriadau.

**5 RHEOLI BUDDSODDI**

Cyflwynwyd – Adroddiadau Chwarterol HSBC Global Asset Management (UK) Cyf am y chwarteri a ddaeth i ben Mehefin 2012 a Medi 2012.

Dywedodd y Rheolwr Buddsoddi fod y portffolio yn ystod y 12 mis diwethaf wedi dangos dychweliad o 15.0% yn erbyn y meincnod o 14.4%. Gwerth y gronfa ar 30 Medi 2012 oedd £14,133,234. Yr incwm a dderbyniwyd rhwng 1 Gorffennaf a 30 Medi 2012 oedd £109,852.

Dywedodd Mr Gareth Jones fod y marchnadoedd ecwiti wedi codi yn ôl i fyny er gwaethaf pryderon economaidd byd-eang. Gwelwyd cynnydd o 4.7% ym marchnad y DU dros y trydydd chwarter tra bod marchnad yr UD wedi codi gan 4.7%, Ewrop gan 8.0% a'r Marchnadoedd newydd gan 7.9%. Ar y llaw arall, gwelwyd cwymp o 3.2% ym marchnad Siapan. Gwelwyd cynnydd pellach o ran bondiau, 1.1% dros y chwarter. Nododd fod y portffolio wedi perfformio'n well na'r meincnod

oherwydd y modd cadarnhaol y cafodd asedau eu dyrannu a stoc ei ddewis gyda'r cyfraniad mwyaf yn dod o'r stoc a ddewiswyd o ecwiti'r DU. Yn ystod y trydydd chwarter, gwerthodd HSBC rai o fondiau corfforaethol y DU ac ecwiti Asia gan ail-fuddsoddi'r arian yn ecwiti'r DU. Perfformiodd y portffolio'n dda yn ystod y trydydd chwarter.

Diolchodd aelodau'r Pwyllgor i Mr Jones am ei gyflwyniad ac roeddynt yn hapus gyda pherfformiad cyfredol y portffolio.

Nodwyd y bydd cyfarfod o'r Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau yn cael ei drefnu yn ystod Ebrill 2013 cyn etholiadau'r Cyngor Sir ym Mai 2013.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad**.

**MR. G.W. ROBERTS OBE**
**CADEIRYDD**